# PWYLLGOR RHANBARTH DE DWYRAIN CYMRU

## BLAENRAGLEN WAITH A DULLIAU GWEITHIO

### Cefndir

1. Bellach sefydlwyd pedwar pwyllgor rhanbarth gan y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 10. Mae Pwyllgor De Dwyrain Cymru yn cynnwys [ychwaneger y siroedd o Reol Sefydlog 10.1].

2. Swyddogaeth y pwyllgorau rhanbarth, fel y'i nodir yn Rheol Sefydlog 10, yw cynghori'r Cynulliad am:

- faterion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau;
- effaith polisïau'r Cynulliad yn y rhanbarthau hynny; a
- gwaith cyrff cyhoeddus yn y rhanbarthau.

Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru, sylwer mai rôl ymgynghorol yn unig sydd i'r pwyllgorau rhanbarthol.

3. Mae Rheol Sefydlog 10 hefyd yn nodi y dylai pob pwyllgor rhanbarth gyfarfod yn ei ranbarth o leiaf ddwywaith bob blwyddyn, ac y bydd ganddo'r per i ethol ei gadeirydd a phenderfynu ar ei raglen waith. Ar gais unrhyw ddau o'i aelodau, gall pwyllgor rhanbarth hefyd benderfynu cynnwys eitem o fusnes ar agenda cyfarfod penodol yn y dyfodol.

### Blaenraglen waith

4. Yn wahanol i'r pwyllgorau pwnc, nid oes gofyniad ffurfiol i'r pwyllgorau rhanbarth fod â blaenraglen waith. Serch hynny, cynigir y dylai Pwyllgor Rhanbarth De Dwyrain Cymru fabwysiadu'r arfer hwn, er mwyn helpu'r Aelodau a'r swyddogion i gynllunio busnes y Pwyllgor at y dyfodol ac i hysbysu cyrff cyhoeddus am fusnes a fydd yn codi yn y dyfodol.

5. Mater i'r pwyllgorau rhanbarth fydd penderfynu ar gynnwys y flaenraglen waith. Fodd bynnag, bydd angen iddynt osgoi dyblygu gwaith y pwyllgorau pwnc, a chanolbwyntio ar faterion lleol. Er enghraifft, bydd pwyllgorau rhanbarth mewn lle da i ategu gwaith y pwyllgorau pwnc trwy ystyried effaith polisïau Cymru gyfan ar yr ardal leol, a gwerthuso eu heffeithiolrwydd. Bydd pwyllgorau rhanbarth hefyd mewn lle da i ystyried materion

trawsbynciol, er enghraifft, datblygiad cynaliadwy, ar y lefel leol.

6. Mae hyn yn golygu y byddai'r Pwyllgor, o bosibl, yn dymuno pennu un neu ddau faes sydd o bwys arbennig i'r rhanbarth, y gallai eu hystyried mewn dyfnder mewn mwy nag un cyfarfod. Wrth ddewis y materion hyn, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried y blaneraglenni gwaith sy'n cael eu datblygu gan y pwyllgorau pwnc ar hyn o bryd. Drwy wneud hyn, bydd y Pwyllgor yn gallu cyfrannu yn y ffordd fwyaf effeithiol i ddatblygiad polisïau'r Cynulliad trwy gyfrannu at waith y pwyllgor pwnc perthnasol.

7. Pwrpas yr awgrym hwn yw rhoi canolbwynt i drafodaethau'r Pwyllgor yn hytrach na chyfyngu arnynt. Bydd cyfle gan yr Aelodau o hyd i drafod yr holl faterion sy'n bwysig i'r ardal. Bydd y rhain, yn ddi-os, yn cynnwys amrediad llawn cyfrifoldebau'r Cynulliad.

8. Bydd y Pwyllgor hefyd yn dymuno ystyried ei berthynas â'r cyrff cyhoeddus sy'n gweithredu yn ei ardal. Eto, bydd angen sicrhau bod gwaith y Pwyllgor yn ategu gwaith y pwyllgorau pwnc, a fydd yn monitro effeithiolrwydd y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad sy'n gweithredu o fewn eu meysydd pwnc.

9. Hyd yn hyn mae'r Clerc wedi cael un awgrym am fater i'w drafod yn y flaen-raglen waith (sef y Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd). Mae'n sicr y bydd yr Aelodau am godi syniadau eraill yn y cyfarfod. Tybir y bydd y Pwyllgor yn cynnal chwe chyfarfod ffurfiol y flwyddyn, sef ym mis Hydref, Rhagfyr, Ionawr, Mawrth, Mai a Gorffennaf.

**Dulliau gweithio**

10. Bydd y pwyllgorau rhanbarth yn fodd i feithrin cysylltiadau hanfodol rhwng y Cynulliad a chymunedau lleol. Cynigir y dylai cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor gael eu cynnal ar draws y Rhanbarth.

11. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dymuno cynnal sesiynau eraill, naill gyda'r cyrff cyhoeddus neu leol, ar draws y rhanbarth. Gellid trefnu'r sesiynau hyn yn ystod y misoedd pan na chynhelir cyfarfodydd ffurfiol o'r Pwyllgor. Mae yna nifer o batrymau y gellir eu mabwysiadu ar gyfer y digwyddiadau hyn. Un posibilrwydd yw y byddai grwpiau o Aelodau'r Pwyllgor yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol yn eu hardaloedd, mewn mannau cyfarfod lleol megis canolfannau cymunedol, neuaddau pentref neu hyd yn oed mewn ysgolion.

12. Wrth drafod y ffordd orau o feithrin cysylltiadau â chymunedau lleol, bydd angen i'r pwyllgor ystyried a ddylid trefnu'r cyfryw gysylltiadau ar sail eithaf ffurfiol, a'r Clercod Pwyllgorau yn bresennol ( a fyddai'n cyfyngu'r digwyddiadau hynny i'r sesiwn misol ar fore Gwener), neu'n anffurfiol, a'r Aelodau unigol yn mynd i ddigwyddiadau lleol fel rhan o'u rôl yn yr etholaeth, ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

## PWYLLGOR RHANBARTH DE DWYRAIN CYMRU

## BLAENRAGLEN WAITH A DULLIAU GWEITHIO

### Cefndir

1. Bellach sefydlwyd pedwar pwyllgor rhanbarth gan y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 10. Mae Pwyllgor De Dwyrain Cymru yn cynnwys [ychwaneger y siroedd o Reol Sefydlog 10.1].

2. Swyddogaeth y pwyllgorau rhanbarth, fel y'i nodir yn Rheol Sefydlog 10, yw cynghori'r Cynulliad am:

- faterion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau;
- effaith polisïau'r Cynulliad yn y rhanbarthau hynny; a
- gwaith cyrff cyhoeddus yn y rhanbarthau.

Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru, sylwer mai rôl ymgynghorol yn unig sydd i'r pwyllgorau rhanbarthol.

3. Mae Rheol Sefydlog 10 hefyd yn nodi y dylai pob pwyllgor rhanbarth gyfarfod yn ei ranbarth o leiaf ddwywaith bob blwyddyn, ac y bydd ganddo'r per i ethol ei gadeirydd a phenderfynu ar ei raglen waith. Ar gais unrhyw ddau o'i aelodau, gall pwyllgor rhanbarth hefyd benderfynu cynnwys eitem o fusnes ar agenda cyfarfod penodol yn y dyfodol.

### Blaenraglen waith

4. Yn wahanol i'r pwyllgorau pwnc, nid oes gofyniad ffurfiol i'r pwyllgorau rhanbarth fod â blaenraglen waith. Serch hynny, cynigir y dylai Pwyllgor Rhanbarth De Dwyrain Cymru fabwysiadu'r arfer hwn, er mwyn helpu'r Aelodau a'r swyddogion i gynllunio busnes y Pwyllgor at y dyfodol ac i hysbysu cyrff cyhoeddus am fusnes a fydd yn codi yn y dyfodol.

5. Mater i'r pwyllgorau rhanbarth fydd penderfynu ar gynnwys y flaenraglen waith. Fodd bynnag, bydd angen iddynt osgoi dyblygu gwaith y pwyllgorau pwnc, a chanolbwyntio ar faterion lleol. Er enghraifft, bydd pwyllgorau rhanbarth mewn lle da i ategu gwaith y pwyllgorau pwnc trwy ystyried effaith polisïau Cymru gyfan ar yr ardal leol, a gwerthuso eu

heffeithiolrwydd. Bydd pwyllgorau rhanbarth hefyd mewn lle da i ystyried materion trawsbynciol, er enghraifft, datblygiad cynaliadwy, ar y lefel leol.

6. Mae hyn yn golygu y byddai'r Pwyllgor, o bosibl, yn dymuno pennu un neu ddau faes sydd o bwys arbennig i'r rhanbarth, y gallai eu hystyried mewn dyfnder mewn mwy nag un cyfarfod. Wrth ddewis y materion hyn, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried y blaneraglenni gwaith sy'n cael eu datblygu gan y pwyllgorau pwnc ar hyn o bryd. Drwy wneud hyn, bydd y Pwyllgor yn gallu cyfrannu yn y ffordd fwyaf effeithiol i ddatblygiad polisïau'r Cynulliad trwy gyfrannu at waith y pwyllgor pwnc perthnasol.

7. Pwrpas yr awgrym hwn yw rhoi canolbwynt i drafodaethau'r Pwyllgor yn hytrach na chyfyngu arnynt. Bydd cyfle gan yr Aelodau o hyd i drafod yr holl faterion sy'n bwysig i'r ardal. Bydd y rhain, yn ddi-os, yn cynnwys amrediad llawn cyfrifoldebau'r Cynulliad.

8. Bydd y Pwyllgor hefyd yn dymuno ystyried ei berthynas â'r cyrff cyhoeddus sy'n gweithredu yn ei ardal. Eto, bydd angen sicrhau bod gwaith y Pwyllgor yn ategu gwaith y pwyllgorau pwnc, a fydd yn monitro effeithiolrwydd y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad sy'n gweithredu o fewn eu meysydd pwnc.

9. Hyd yn hyn mae'r Clerc wedi cael un awgrym am fater i'w drafod yn y flaen-raglen waith (sef y Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd). Mae'n sicr y bydd yr Aelodau am godi syniadau eraill yn y cyfarfod. Tybir y bydd y Pwyllgor yn cynnal chwe chyfarfod ffurfiol y flwyddyn, sef ym mis Hydref, Rhagfyr, Ionawr, Mawrth, Mai a Gorffennaf.

**Dulliau gweithio**

10. Bydd y pwyllgorau rhanbarth yn fodd i feithrin cysylltiadau hanfodol rhwng y Cynulliad a chymunedau lleol. Cynigir y dylai cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor gael eu cynnal ar draws y Rhanbarth.

11. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dymuno cynnal sesiynau eraill, naill gyda'r cyrff cyhoeddus neu leol, ar draws y rhanbarth. Gellid trefnu'r sesiynau hyn yn ystod y misoedd pan na chynhelir cyfarfodydd ffurfiol o'r Pwyllgor. Mae yna nifer o batrymau y gellir eu mabwysiadu ar gyfer y digwyddiadau hyn. Un posibilrwydd yw y byddai grwpiau o Aelodau'r Pwyllgor yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol yn eu hardaloedd, mewn mannau cyfarfod lleol megis canolfannau cymunedol, neuaddau pentref neu hyd yn oed mewn ysgolion.

12. Wrth drafod y ffordd orau o feithrin cysylltiadau â chymunedau lleol, bydd angen i'r pwyllgor ystyried a ddylid trefnu'r cyfryw gysylltiadau ar sail eithaf ffurfiol, a'r Clercod Pwyllgorau yn bresennol ( a fyddai'n cyfyngu'r digwyddiadau hynny i'r sesiwn misol ar fore Gwener), neu'n anffurfiol, a'r Aelodau unigol yn mynd i ddigwyddiadau lleol fel rhan o'u rôl yn yr etholaeth, ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mehefin 1999**